



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## **CANLYNIAD Y BROSES CAFFAEL: PRACTIS MEDDYGOL ABER-BÎG**

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

### **C1 Beth mae'r canlyniad yn ei olygu i mi a/neu fy nheulu?**

Bydd yr holl gleifion presennol yn parhau i gofrestru gyda Phractis Meddygol Aber-bîg. O 1 Ionawr 2026 ymlaen, byddwch yn parhau i gael mynediad i'ch holl anghenion gofal iechyd o'r safle yn Y Sgwâr, Aber-bîg.

Bydd rhif ffôn y claf hefyd yn aros yr un fath, a byddwch yn parhau i allu cysylltu â'ch practis Meddyg Teulu ar 01495 322900, neu ar-lein drwy [meddygfaaberbeeg.cymru.gig.du](http://meddygfaaberbeeg.cymru.gig.du)

### **C2 A fyddaf yn dal i allu gweld fy Meddyg Teulu arferol neu Weithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol arferol arall yn Aber-bîg?**

Bydd yr holl staff practis, clinigwyr a staff gweinyddol/derbynfa yn aros yng Nghanolfan Feddygol Aber-bîg o dan reolaeth newydd partneriaid Meddygfa Cwm Calon. Efallai y bydd staff o Feddygfa Cwm Calon hefyd yn dechrau gweithio yn Aber-bîg.

### **C3 A fydd unrhyw newidiadau i'r ffordd rydw i'n archebu fy mhesgripsiwn rheolaidd misol?**

Nid yw partneriaid Meddygfa Cwm Calon yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol. Mae'r partneriaid yn dymuno sicrhau cleifion y bydd unrhyw newidiadau i brosesau yn cael eu gwneud er budd cleifion a thrwy ymgysylltu â chynrychiolwyr cleifion ac yn cael eu cyfathrebu'n glir.

### **C4 A fydd mwy o feddygon a nyrsys ar gael ym Mhractis Meddygol Aber-bîg?**

Mae'r partneriaid newydd wedi cyflwyno cynllun clir i'r Bwrdd Iechyd, gan amlinellu eu bod yn bwriadu cynnig sesiynau clinigol ychwanegol yn Aber-bîg am o leiaf 6 mis tra bod cleifion a staff yn mynd trwy'r pontio hwn.

### **C5 A fydd fy ngofal meddygol neu driniaeth bresennol yn cael ei amharu arno?**

Na. Bydd yr holl ofal cleifion yn parhau ac mae'r partneriaid newydd yn ymroddedig i sicrhau darparu gofal rhagorol i gleifion.

**C6 Beth os nad ydych chi'n dymuno parhau i fod wedi fy nghofrestru ym Mhractis Meddygol Aber-bîg? Sut ydych chi'n cofrestru gyda darparwr arall os byddaf yn dewis?**

Gallwch ddewis cofrestru gyda phractis cyfagos arall os ydych chi'n dymuno gwneud hynny, ac ar yr amod eich bod yn byw o fewn ffin y practis hwnnw.

Mae Practis Grŵp Abertyleri, Meddygfa Cwm Calon, Canolfan Iechyd Cwm a Phractis Gogledd Celynen yn darparu gwasanaethau Meddygon Teulu i gleifion sy'n byw yn Aber-bîg a'r ardaloedd cyfagos, fodd bynnag, bydd angen cadarnhau union ffiniau wrth ofyn am gofrestru yn y practis.

Practis Grŵp Abertyleri	01495 361636
Meddygfa Cwm Calon	01495 533533
Canolfan Iechyd Cwm	01495 370209
Practis Gogledd Celynen	01496 246531

Gallwch gysylltu â'r practis o'ch dewis yn uniongyrchol a gofyn am gofrestru gyda nhw, a byddant yn gallu eich cynorthwyo drwy'r broses gofrestru. Fel arall, gall aelod o'r Tîm Contractio Gofal Sylfaenol eich cynorthwyo gyda hyn, os yw'n well gennych, drwy ffonio 01495 241254 neu 241258.

**C7 A allaf ddarganfod mwy am y Partneriaid Meddygon Teulu ym Meddygfa Cwm Calon?**

Mae rhagor o wybodaeth am y partneriaid a thîm y practis yng Nghwm Calon ar gael yma:

[Welcome to Cwm Calon Surgery - Cwm Calon Surgery](#)

**C8 A allaf wneud unrhyw beth i helpu?**

Cyngor cyffredinol i unrhyw un sy'n meddwl am wneud apwyntiad gyda'r practis fyddai ystyried:

- Oes angen i mi weld meddyg, neu a allaf ofyn am aelod gwahanol o'r tîm gofal iechyd, e.e. nyrs practis, uwch ymarferydd ac ati?
- A allaf ymweld â fferyllfa yn hytrach na'r practis?
- Oeddech chi'n gwybod am y Cynllun Anhwylderau Cyffredin Fferylliaeth Gymunedol?

Mae gwasanaeth anhwylderau cyffredin fferyllfa gymunedol yn gynllun ar gyfer cleifion sy'n gallu ymgynghori â fferyllfa gymunedol sy'n cymryd rhan, yn hytrach na'u Meddyg Teulu, ar gyfer **rhestr ddiffiniedig** o anhwylderau cyffredin nad oes angen eu gweld gan nyrs neu feddyg. Bydd y fferylllydd yn cyflenwi meddyginiaeth o

fformiwla y cytunwyd arno, yn rhoi cyngor neu'n cyfeirio'r claf at y Meddyg Teulu os oes angen. **Mae meddyginiaethau yn cael eu cyflenwi am ddim.**